WG35.5 26

# Galargan er Parchus Goffadwriaeth

AM

# MYNYDDOG.

*( A gyfansoddwyd ar ddydd ei gladdedigaeth )*

Richard Davies

Ar lan hên Afon Dyfi,
  Pa beth sydd heddyw'n bod?
A fuodd un o'i cedyrn
  I angeu yma'n nôd?
Paham mae'r dorf a welaf
  I gyd mor drist eu gwedd
Mae'n rhaid fod rhywun enwog,
  I'w roi mewn distaw fedd!

Fe fuodd ef yn enwog,
  Gan fawrion yn y byd,
Cyn cael fath dorf a welir,
  O fawrion yma'n nghyd;
MYNYDDOG! O MYNYDDOG!
  Machludodd haul dy ddydd,
O herwydd hyn mae miloedd
  Yn awr a chalon brudd!

X20530812X

O flaen y gwych breswylfod,
Mae'r ardd yr un mor dlws;
'Run fath y mae y blodeu,
Yn gwenu wrth y drws;
Mae'r bywyd anianyddol
I'w ganfod ar bob tu,—
Er hyny, nid yw pobpeth
Yr awrhon, fel y bu!

Mae hithau'r Afon Dyfi,
Yn gymhwys megys cynt,
'Run fath yn mysg y llwyni
Y chwery'r awel wynt
Er hyny, nid yw pobpeth
Yr awrhon ddim mor gu,
Yn ardal hoff y Cemmaes,
O lawer ag y bu!

Er myn'd i fewn i'r annedd,
Rhoi tro trwy'r parlwr mawr,
Nid yw y Bardd a'r Llenor,
Yn unman yno'n awr!
Er myn'd i'r 'Steddfod boblog,
Mewn enwog Dref, a Llan,
A chwilio am MYNYDDOG,
Nis ceir mewn unrhyw fan!

Er ysgrifenu llythyr,
A rhoddi yn ei gôl,
Yr hoffwn gael atebiad,
Ddaw llythyr byth yn ol:
Mae'r llaw fu'n ysgrifenu,
Yn nghyd a'r tafod ffraeth,
Gan elyn mawr dynoliaeth,
Mewn cadwyn heddyw'n gaeth!

MYNYDDOG! O MYNYDDOG!!
Mae'n alar am nad yw,
Ar 'sgynlawr yr Eisteddfod,
Yn llon yn mhlith y byw;
O hyn nes tawo Dyfi
A sibrwd ar y gro,
Bydd enw'r Bardd MYNYDDOG,
Yn bêrsawr trwy y fro.

Yn LLANBYRNMAIR caiff huno,
Yn wir, dan gwrlid gwyrdd;
Enneined y cymylau
Ei fedd â dagrau fyrdd;
A süed yr awelon,
A gwened haul a lloer—
Tra huna yr Arch-Gymro
O dan y cwrlid oer.

# Y NOS.

Y Nos i ddiddos e ddaw—o ei daith
   Y dyn rhag tramgwyddaw,
A'r hwysmon, wr llon, ger llaw
A welir yn noswyliaw.

Y Nos dir llunir digllonwaith,—y Nos
   Y naid y blaidd diffaith ;
A'r lleidr o'r gell, (dywell daith),
I wylied am dy ddylaith.

Y Nos cûdd y llofruddiant,— y Nos
   O nawb y puteiniant,
Y Nos lladratta a wnant,
Un modd y Nos y meddwant.

Nos waethaf o'r nosweithiau—i annuw
   I'w du-nos yr Angau, ;
Myn gael o mewn y golau,
Y Nos hon sydd yn neshau.

---

Argraffwyd gan E. Jones, Machynlleth.